EISTEDDFOD 2025

# 605. GWOBR GOFFA GWYNETH MORUS JONES
# LLEAFRU UNIGOL 16 AC O DAN 21 OED

'Dros Gymru'n Gwlad', Lewis Valentine, ynghyd â darn(au) hunanddewisiad o waith/weithiau Saunders Lewis a/neu DJ Williams. Gellir cyflwyno'r darn gosod ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei blethu gyda'r darn(au) hunanddewisiad.

Ni ddylai'r perfformiad cyfan fod yn hwy na 5 munud

## DROS GYMRU'N GWLAD

Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
y winllan wen a roed i'n gofal ni;
d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

O deued dydd pan fo awelon Duw
yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,
a'r crindir cras dan ras cawodydd nef
yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef,
a'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen
yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen.

**LEWIS VALENTINE**